



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Y Manod
Blaenau Ffestiniog
Gwynedd
LL41 3AF**

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/04/2016

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Y Manod wedi ei lleoli ar dir uchel ar gyrion deheuol tref Blaenau Ffestiniog yng Ngwynedd. Daw'r disgyblion bron i gyd o Fanod. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed. Mae 106 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 19 o oed meithrin. Mae pedwar dosbarth oed cymysg yn yr ysgol.

Derbynia'r ysgol y disgyblion yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae tua 85% y disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae 28% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 23% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Chwefror 2009. Ers yr arolygiad, mae'r staff wedi newid yn sylweddol. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ebrill 2012, a'r dirprwy ers Ionawr 2013.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2015-2016 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Y Manod yw £3,628. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £12,116 a'r isafswm yw £2,981. Mae Ysgol Gynradd Y Manod yn 73ain allan o'r 98 o ysgolion cynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda
- medrau llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn a'u bod yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi
- disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd Cymraeg a Saesneg yn effeithiol ar draws y cwricwlwm
- disgyblion yn deall yn dda'r meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau, sut i wella eu gwaith, ac yn asesu eu cynnydd eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus
- lefelau presenoldeb a safonau ymddygiad disgyblion yn uchel, gyda'r disgyblion yn cyfranogi'n helaeth yng nghymuned yr ysgol a'r gymuned leol
- athrawon yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu, sy'n hybu diddordeb a chymhelliant y disgyblion yn llwyddiannus
- ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel, hapusrwydd a lles da disgyblion ac wedi ei chyfleu'n llwyddiannus i'r staff, rhieni a llywodraethwyr
- staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn hybu ethos cartrefol, clos ar gyfer yr holl ddisgyblion
- gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu
- strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau
- y corff llywodraethol yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol
- cydweithio'n effeithiol gydag ystod dda o bartneriaid i ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus

Argymhellion

- A1 Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen
- A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm
- A3 Cynnig her gyson i ddisgyblion o allu uwch
- A4 Ymestyn cyfleoedd i athrawon gyfnewid arfer dda tu hwnt i'r ardal leol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Ar fynediad i'r ysgol, lleiafrif o ddisgyblion sydd â medrau sylfaenol sy'n briodol i'w hoed. Mae'r Gymraeg yn ail iaith i ychydig o ddisgyblion. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda. Maent yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Mae medrau llafar disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg am eu profiadau a'u diddordebau, gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Caiff hyn ei ddatblygu'n llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn Saesneg, gan ymuno â thrafodaethau dosbarth yn frwdfrydig. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn mynegi barn yn aeddfed am ystod o destunau ac yn gwrando'n astud ar gyfraniadau eraill, gan ystyried eu safbwyntiau, er enghraifft wrth drafod agweddau ar sut i gadw eu hunain yn ddiogel. Mae bron bob disgybl yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae safon darllen y disgyblion gan amlaf yn briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn darllen yn rhugl ac ar gyflymder addas. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am gynnwys eu llyfrau ac maent yn mynegi barn yn hyderus am eu hoff ran neu gymeriad. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau amrywiol i'w helpu i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gywir a hyderus yn y Gymraeg. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda i gefnogi eu gwaith mewn ystod o bynciau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrion yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Maent yn mynegi barn am lyfrau ac yn disgrifio'r prif gymeriadau a rhediad y digwyddiadau o fewn y straeon yn ystyrion. Maent yn defnyddio gwahanol strategaethau darllen yn gelfydd i ddod o hyd i wybodaeth i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymchwilio i agweddau o Fasnach Deg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn llwyddiannus gan amrywio brawddegau ac atalnodi eu gwaith yn gywir. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n briodol i'w hoed a'u gallu ar draws y meysydd dysgu. Er hyn, ychydig o ddisgyblion sy'n ysgrifennu'n estynedig yn annibynnol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg at wahanol ddibenion yn effeithiol. Maent yn cymhwyso amryw ffynhonnell i gasglu gwybodaeth er mwyn cyflwyno darnau ysgrifenedig o safon dda, er enghraifft wrth greu erthygl papur newydd am ddechrau'r Ail Ryfel Byd. Maent yn ysgrifennu'n drefnus gan gyflwyno syniadau a gwybodaeth yn rhesymegol ac yn effeithiol. Maent yn gwybod y gwahaniaeth rhwng ffaith a barn ac yn defnyddio'r wybodaeth yn gelfydd wrth ysgrifennu llythyr am bwysigrwydd gwaith cartref.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan rhan fwyaf y disgyblion fedrau mathemategol priodol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan lawer afael sicr ar ffeithiau rhif. Er hyn, lleiafrif sy'n defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Mae llawer yn cymhwyso eu dealltwriaeth o unedau mesur safonol ac ansafonol yn dda, er enghraifft wrth fesur a chymharu rhannau o'r corff. Mae'r rhan fwyaf yn casglu, cyflwyno a dadansoddi gwybodaeth syml wrth greu tabl a llunio graff bar syml, er enghraifft wrth gofnodi faint o adar sy'n ymweld â'r ardd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhifedd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn adnabod y camau sydd eu hangen i ddatrys problemau ac yn datblygu strategaethau priodolyn gywir, er enghraifft wrth ddarganfod faint o arian gallai oedolion ei arbed pe baent yn rhoi gorau i ysmegu. Maent yn casglu a chyflwyno gwybodaeth yn systematig a chywir ar ffurf tablau a graffiau wrth ymchwilio i ba grŵp o ddisgyblion yw'r mwyaf egniol. Fodd bynnag, er bod medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn, nid ydynt yn eu trosglwyddo'n ddigon rheolaidd i feysydd eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn pryddau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u gallu. Nid oes patrwm o wahaniaeth rhwng cyflawniadau'r disgyblion hyn â'u cyfoedion. Ar brydiau, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwylidig wedi gostwng o'r 25% uchaf i'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol gan amlaf yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros yr un cyfnod.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwylidig mewn Saesneg a Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn amrywio'n fawr ac nid oes patrwm cyffredinol. Ar y lefel uwch, dros yr un cyfnod, mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg wedi gosod yr ysgol gan amlaf yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth gan amlaf yn y 50% uwch.

Lles: Da

Mae bron bob un disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd ac yn meddu ar agwedd gadarnhaol tuag at fwyta ac yfed yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o elfennau sy'n debygol o effeithio ar eu hiechyd.

Mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda iawn ac maent yn gwrtais a chroesawgar at ymwelwyr. Mae disgyblion yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos pharch tuag at blant, staff ac ymwelwyr. Mae gan bron bob un agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Gall y rhan fwyaf weithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn deall yn dda y meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau, sut i wella eu gwaith, ac yn asesu eu cynnydd eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus.

Mae disgyblion yn chwarae rôl bwysig ym mywyd a gwaith yr ysgol drwy eu swyddogaethau gyda'r cyngor ysgol a'r cyngor gwyrdd. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae llais y disgybl yn bwysig ac yn cael lle amlwg drwy fentrau amrywiol, er enghraifft wrth iddynt drefnu gweithgareddau codi arian at nifer o elusennau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill. Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn cymryd rhan flaenllaw mewn digwyddiadau cymdeithasol yn lleol drwy gynnal cyngherddau a chystadlu mewn eisteddfodau. O ganlyniad, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o'r gymuned leol.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gyson uchel, ac wedi bod ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Mae bron bob un disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sy'n diwallu anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn fwriadus er mwyn sicrhau bod profiadau dysgu yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Darperir profiadau diddorol i hyrwyddo'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol ynghyd â chyfraniadau gan aelodau'r gymuned sy'n cyfrannu'n dda at ddatblygu lles a ffitrwydd disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn fwriadus i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r cwricwlwm yn darparu amrediad buddiol o weithgareddau sy'n datblygu medrau llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth yn dda. Mae athrawon yn cynnig ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhif mewn gwersi mathemateg. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau bob amser yn cynnig digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn hybu dealltwriaeth disgyblion o iaith a diwylliant Cymru yn gadarn iawn. Mae ymrwymiad yr ysgol i Siarter Iaith Gwynedd yn hyrwyddo defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn llwyddiannus. Mae ystod gyfoethog o brofiadau gwerthfawr i hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Gwneir defnydd da o ymweliadau yn yr ardal leol, fel Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu a Chastell Harlech ac ymweliadau gan artistiaid o Gymru a cherddor lleol i gefnogi'r profiadau.

Mae profiadau ar gyfer hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn dda. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i hybu ymwybyddiaeth y disgyblion am sut i fyw mewn modd cynaliadwy, er enghraifft drwy waith y cyngor gwyrdd yn casglu ac ailgylchu gwahanol adnoddau. Mae cyfleoedd diddorol i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd eang sy'n magu dealltwriaeth disgyblion o fywyd pobl mewn gwledydd eraill yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw gweithgareddau'r disgyblion wrth gymharu eu bywyd yng Nghymru a bywyd plentyn yn Affrica.

Addysgu: Da

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda. Maent yn defnyddio amrywiaeth dda o ddulliau dysgu a gweithgareddau diddorol i ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafaredd. Yn y rhan fwyaf o ddsbarthiadau, ble mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus. Maent yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion weithio mewn parau ac mewn grwpiau bach. Mae cymorthyddion yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd yr addysgu ac yn cynnig cymorth da yn ôl anghenion disgyblion er mwyn iddynt gwblhau eu tasgau. Yn yr ychydig o enghreifftiau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae gorgyfarwyddo yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol. O ganlyniad, nid oes bob amser ddigon o her i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd digon da.

Mae athrawon ar draws yr ysgol wedi mabwysiadu strategaethau asesu ar gyfer dysgu defnyddiol er mwyn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae athrawon yn gosod amcanion a thrafod meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion yn effeithiol. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn gyson ac yn cynnig sylwadau adeiladol i gynorthwyo disgyblion i wybod sut i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Trwy hyn, mae anghenion disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar. Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'r holl asesiadau er mwyn cynllunio ar gyfer grwpiau ac unigolion a sicrhau cynnydd.

Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, ofalgar a chynhwysol. Mae'r pwyslais a'r effaith hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at gyfraddau presenoldeb uchel a brwdfrydedd amlwg disgyblion at eu dysgu. Mae gweithgareddau'r ysgol o fewn y gymuned a chyfnodau cyd-addoli yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael ei gyfoethogi drwy'r clybiau allgyrsiol a'r defnydd o asiantaethau allanol.

Mae'r cydweithio agos sy'n bodoli rhwng yr ysgol a gwasanaethau arbenigol yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd da ar gyfer y disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau amrywiol i sicrhau'r gefnogaeth, gan gynnwys y swyddog lles, therapydd iaith ac asiantaethau cymdeithasol. O ganlyniad, mae'r disgyblion bregus sydd yn derbyn cymorth ychwanegol drwy raglenni ymyrraeth yn gwneud cynnydd da.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion unigolion yn gynnar ac yn gweithredu'n brydlon i ddarparu cynhaliaeth bwrpasol ar eu cyfer. Mae'r ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion ag anghenion emosiynol yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da yn eu medrau cymdeithasol. Mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth sy'n deillio o arsylwadau a phrofion i olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn fedrus i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Mae targedau addas yn cael eu nodi yn y cynlluniau addysg unigol ac mae'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses o'u llunio a'u hadolygu.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, gyda ethos cartrefol a chynhwysol. Mae gan bob disgybl fynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae polisiau a gweithdrefnau clir yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb ac yn hybu cydraddoldeb a dealltwriaeth o amrywiaeth a thegwch yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn annog cydweithrediad, gofal a pharch rhwng oedolion a disgyblion a rhwng disgyblion a'i gilydd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y gymuned hapus a chefnogol sy'n bodoli.

Lleolir yr ysgol ar safle braf. Mae'r safle yn ddiogel a chadarn. Mae'r adeilad yn cynnig digon o le, a gwneir defnydd pwrpasol o bob rhan ohono ac o'r adnoddau awyr agored i fodloni anghenion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r tir a'r adeilad yn cael eu cynnal a'u cadw'n raenus gyda safon uchel o lanweithdra. Mae staff wedi creu amgylchedd dysgu diogel a deniadol ac mae arddangosfeydd pwrpasol ym mhob rhan o'r ysgol sy'n dathlu gwaith y disgyblion. Mae ardaloedd allanol amrywiol ysgogol, sy'n cynnwys gardd lysiau ac ardal natur, yn annog y disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau ar gyfer cyflwyno gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
--

Da

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel, hapusrwydd a lles da disgyblion. Mae'n darparu arweiniad cadarn ac yn cydweithio'n effeithiol â disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni i greu ysgol lwyddiannus. Caiff gefnogaeth fedrus gan y dirprwy ac mae ethos o gydweithio fel tîm yn bodoli ymysg yr holl staff i gyflawni amcanion yr ysgol yn effeithiol.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella'r

ysgol. O ganlyniad, mae pob aelod o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda mewn perthynas â chynlluniau strategol yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol. Maent yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol ac yn cynnig cyfleoedd da i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae'r pennaeth yn sicrhau cyfleoedd i'r holl athrawon arwain ac i gynnal trafodaethau ffurfiol sy'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth ynghyd â safonau a deilliannau'r disgyblion. Mae hyn yn rhoi hyder a phrofiad da i'r staff ac yn cyfrannu'n effeithiol at ddarpariaeth a safonau yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth weithredu Siarter Iaith Gwynedd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos balchder at yr iaith Gymraeg ac yn defnyddio'r iaith yn naturiol wrth gymdeithasu yn ogystal ag yn eu gwersi.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn drylwyr. Mae aelodau'r corff yn ymateb yn gydwybodol i'w rôl strategol, trwy ddadansoddi data yn ofalus a monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella yn drwyadl. Mae eu hymweliadau â'r ysgol yn rhoi ffocws clir iddynt ar wahanol agweddau, gan gynnwys dealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol ynghyd â'r agweddau hynny sydd angen gwelliant. O ganlyniad, maent yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol.

Gwella ansawdd: Da

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu, sy'n seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Maent yn cynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a chasglu barnau disgyblion, rhieni a llywodraethwyr ac ystyried adroddiadau ymgynghorwyr. Mae pob aelod o staff a llywodraethwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y broses hunanarfarnu ac yn ystyried yn ddeallus effaith y ddarpariaeth ar safonau. Mae deilliannau'r hunanarfarniad yn cynnig adnabyddiaeth glir a chywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. O ganlyniad, mae arweinwyr a staff yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn ymwybodol o'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau a sicrhau lles da disgyblion, er enghraifft wrth sicrhau nad oes patrwm o wahaniaeth rhwng cyflawniadau disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim â'u cyfoedion.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy'r broses hunanarfarnu yn effeithiol i bennu blaenoriaethau allweddol a meysydd ffocws i'r dyfodol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn fanwl ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol, ac mae ynddo feini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a dulliau ar gyfer monitro cynnydd. Mae trefniadau monitro effeithiol yr ysgol yn sicrhau bod arweinwyr yn mesur effeithiolrwydd blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn gyson a pharhaus. Mae'r camau gweithredu eisoes yn cael effaith gadarnhaol, er enghraifft drwy sicrhau bod strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n gadarn ar draws yr ysgol ac wrth sicrhau cymhelliad y disgyblion tuag at eu dysgu.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid i ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae perthynas werthfawr rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae rhieni yn gefnogol iawn, ac yn ategu'r holl weithgareddau'n

frwd. Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni yn gyson am weithdrefnau'r ysgol, er enghraifft drwy ddefnyddio gwefannau cymdeithasol a llythyru rheolaidd. Mae ffocws y pennaeth ar gydweithio gyda'r rhieni er mwyn gwella lles a chymhelliant y disgyblion at ddysgu yn gryfder. Adlewyrchir hyn yn y cyfraddau presenoldeb uchel.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i argymhellion partneriaid, fel yr awdurdod lleol, ac mae'r pennaeth wedi cyfrannu at gyrsiau hyfforddiant ar gyfer ymateb i hybu lles y disgyblion. Mae hyn wedi cryfhau gallu'r staff i feithrin dulliau a strategaethau effeithiol ar gyfer ymateb i anghenion lles a deallusrwydd emosiynol disgyblion.

Mae cydweithio llwyddiannus gyda'r cylch meithrin yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda yn y dosbarth meithrin. Mae perthynas gadarnhaol gyda'r ysgol uwchradd leol yn sicrhau bod trefniadau pontio yn effeithiol i sicrhau trosglwyddo esmwyth. Mae athrawon yn cydweithio'n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd i gymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd er mwyn sicrhau dilysrwydd yr asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae partneriaeth gadarn â'r gymuned leol. Mae ymweliadau â'r gymuned a'r defnydd o unigolion lleol yn cyfrannu'n dda i brofiadau'r disgyblion, er enghraifft drwy gydweithio ac artist lleol i greu gwaith celf ddeniadol o'r ardal. Mae hyn hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hamgylchedd.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol nifer briodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Mae cymorthyddion yn cefnogi staff a disgyblion yn effeithiol ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar safonau, lles a medrau cymdeithasol y disgyblion. Mae staff yn defnyddio adnoddau'r ysgol yn dda gan sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion at bob agwedd o'r cwricwlwm.

Mae darpariaeth ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu athrawon wedi ei threfnu'n dda a gwnânt ddefnydd pwrpasol o'u hamser. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu rheoli'n ofalus er mwyn sicrhau bod athrawon yn cyd-drafod cynlluniau i wella ansawdd yr addysgu.

Mae prosesau rheoli perfformiad yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff. Mae'r nifer o gysylltiadau ag ysgolion cyfagos yn cynnig cyfleoedd buddiol i athrawon gydweithio ar agweddau penodol, fel ymateb i anghenion disgyblion mwy abl a thalentog. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i athrawon gyfnewid arfer dda gydag ysgolion tu hwnt i'r ardal leol.

Mae'r pennaeth a llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer gwella agweddau cymdeithasol y disgyblion ac i gynnal sesiynau i ymateb i wella llythrennedd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol wrth sicrhau cymhelliant a hyder disgyblion ag anghenion emosiynol yn eu dysgu.

O ystyried safonau cyflawniadau'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6612205 - Ysgol Manod

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	98
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	28.0
Grŵp PYD	4 (24%<PYD<=32%)

Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	8	11	18	8
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	100.0	90.9	83.3	75.0
Chwarter meincnod	1	1	3	4
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	8	10	18	8
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	90.0	83.3	75.0
Chwarter meincnod	1	1	3	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	62.5	40.0	33.3	25.0
Chwarter meincnod	1	1	1	3
Datblygiad mathemategol (MDT)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	8	11	18	8
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	100.0	83.3	75.0
Chwarter meincnod	1	1	3	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	62.5	54.5	33.3	25.0
Chwarter meincnod	1	1	1	3
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	8	11	18	8
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	100.0	88.9	87.5
Chwarter meincnod	1	1	4	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	75.0	54.5	33.3	25.0
Chwarter meincnod	1	2	3	4

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6612205 - Ysgol Manod

Nifer y disgyblion ar y gofrestr

98

Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd

28.0

Grŵp PYD

4 (24%<PYD<=32%)

Cyfnod allweddol 2

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	14	11	12	16
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	92.9	81.8	100.0	75.0
Chwarter meincnod	1	3	1	4
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	14	11	12	16
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	92.9	81.8	100.0	81.3
Chwarter meincnod	1	3	1	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	35.7	45.5	41.7	43.8
Chwarter meincnod	2	1	1	1
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	14	11	12	16
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	92.9	72.7	100.0	75.0
Chwarter meincnod	1	4	1	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	35.7	*	41.7	43.8
Chwarter meincnod	1	*	1	1
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	14	11	12	16
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	92.9	81.8	100.0	81.3
Chwarter meincnod	1	3	1	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	35.7	*	50.0	37.5
Chwarter meincnod	2	*	1	2
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	14	11	12	16
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	92.9	81.8	100.0	87.5
Chwarter meincnod	2	4	1	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	35.7	45.5	50.0	37.5
Chwarter meincnod	2	1	1	2

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	43	43 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	42	42 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	43	43 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	43	43 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	43	43 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	43	43 100%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	43	43 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	43	43 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	40	39 98%	1 2%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	43	43 100%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	42	40 95%	2 5%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	41	41 100%	0 0%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Goronwy Morris	Arolygydd Cofnodol
Glyn Griffiths	Arolygydd Tîm
Jeffrey Davies	Arolygydd Lleyg
Nia Ward	Arolygydd Cymheiriaid
Falmai Wyn Ellis	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.